# Tendr ehangu ymgysylltu: sgyrsiau am ehangu ymgysylltiad creadigol a diwylliannol â chymunedau ledled Cymru

## Atebion Cyngor Celfyddydau Cymru i gwestiynau a ddaeth i law

Cawsom y cwestiynau canlynol gan ymgeiswyr posibl am y cyfle uchod sy'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd. Mae'r holl gwestiynau yma yn eu geiriau gwreiddiol gyda'n hatebion. Felly mae'n bosibl y bydd yr un cwestiynau ac ymatebion yn digwydd fwy nag unwaith. Cyhoeddir y ddogfen yma ddydd Llun 20 Ebrill 2020 a chyn dyddiad cau'r tendr, 24 Ebrill 2020.

### A ydy'r tendr o hyd ar gael?

Ydy. Y dyddiad cau o hyd yw 5pm ddydd Gwener 24 Ebrill 2020. Ond rydym ni wrth gwrs yn deall cymhlethdodau cynllunio am y dyfodol gydag unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd, felly rydym ni'n awyddus i fod yn hyblyg o ran yr amserlen am gyflawni ac ati.

### O ystyried coronafeirws ar hyn o bryd:

1. a yw'r amserlenni ar gyfer cyflwyno cynnig a chyflawni contractau yn dal yr un fath?

2. beth yw'r dyddiad diweddaraf i orffen y prosiect y byddech chi'n ei ystyried?

### O ystyried y sefyllfa bresennol a'r ffaith y gallai mesurau ymbellhau cymdeithasol fod ar waith am hyd at 18 mis, byddai hyn yn dylanwadu ar ein methodoleg, gan nad yw ymgysylltu wyneb yn wyneb (ein dull arferol) yn bosibl nac yn ddiogel ar hyn o bryd.

Rydym ni'n cadw'r dyddiad cyflwyno cynnig yr un fath, ond rydym ni'n amlwg yn deall y bydd angen i'r amserlen ar gyfer cynnal a dyddiad gorffen fod yn hyblyg. Rydym ni'n hapus i fod yn hyblyg hefyd.

1. Y dyddiad cau yw 24 Ebrill. Ai dyma'r dyddiad cau o hyd gyda choronafeirws neu a gaiff hwn ei ohirio? Bydd y cyfyngiadau ar ymgynnull a'r effaith ar y rhai sy'n byw gyda demensia (gyda'r cyngor i unigolion agored i niwed hunanynysu) yn amlwg yn cael effaith ar y cynnig tendr a sut rydym ni'n cynnal "sgyrsiau" gyda'r rhai y mae demensia'n effeithio arnynt.

2. Os 24 Ebrill yw'r dyddiad cau, byddem ni'n rhagweld na fyddai ein gweithgarwch prosiect yn dechrau tan fis Gorffennaf eleni, gan gymryd i ystyriaeth coronafeirws. Ein bwriad fyddai gorffen y prosiect erbyn diwedd y flwyddyn. A fyddai hyn yn dderbyniol?

3. Er nad ydych chi wedi nodi cyllideb, a oes uchafswm?

Rydym ni'n cadw'r dyddiad cyflwyno cynnig yr un fath, ond rydym ni'n amlwg yn deall y bydd angen i'r amserlen ar gyfer cynnal a dyddiad gorffen fod yn hyblyg. Rydym ni'n hapus i fod yn hyblyg hefyd.

Nid oes gennym uchafswm ar gyfer y gwaith. Rydym ni’n awyddus i'r prosiect gael ei gynnal yn effeithiol ac yn effeithlon, a bydd angen i'r cyllidebau a gawn adlewyrchu hyn.

**A oes modd i mi gael arweiniad ynghylch pa mor eang rydych chi’n ddelfrydol eisiau i'r ymgysylltu uniongyrchol a'r mapio ddigwydd a'ch dyddiad gorffen delfrydol? Bydd hyn yn llywio ein tendr ac yn fodd inni gyflwyno cais cyflawnadwy yn ôl eich amserlen.**

Rydym ni am ennyn diddordeb mor eang â phosibl er mwyn casglu adborth a barn gan lawer o gymunedau ledled Cymru.

O ran yr amserlen, fel y nodwyd yn y tendr, dylid gorffen y gwaith cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd hyn yn amlwg yn cael ei benderfynu gan yr uchod a’r amser sy’n mynd ar ymgysylltu â chymunedau. Rydym ni'n awyddus i beidio â rhuthro pethau a gwneud pob dim yn gywir.

**Gwelaf mai'r dyddiad cau ar gyfer y cais yw 24 Ebrill. A yw'r dyddiad cau’n aros yn gyfredol neu a gaiff ei ymestyn oherwydd y sefyllfa bresennol?**

Rydym ni’n cadw'r dyddiad cyflwyno cynnig yr un fath, ond rydym ni’n amlwg yn deall y bydd angen i'r amserlen ar gyfer cynnal a dyddiad gorffen fod yn hyblyg. Rydym ni’n hapus i fod yn hyblyg hefyd.

**Rydym ni yn y broses o gyflwyno ein cais, ond roedd gennym rai cwestiynau allweddol:**

**A oes gennych gyllideb ddangosol, neu faint y gyllideb sydd ar gael i’r ymchwil?**

**Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni yn y sefyllfa bresennol?**

**A oes unrhyw oblygiadau i'r ymchwil yng nghyd-destun coronafeirws?**

**A fydd modd inni weld yr ymchwil ragarweiniol y cyfeiriwyd ati yn y tendr?**

**At bwy y bydd yr adroddiadau wedi’u hanelu: Cyngor Celfyddydau Cymru, y sector ehangach, y cymunedau eu hunain, neu gyfuniad?**

**Beth yw'r meini prawf ar gyfer cynnwys eraill yn y gwaith – ai gwasgariad daearyddol ynteu ffocws penodol ar faterion hygyrchedd/ymgysylltu? (A fyddai hyn yn meddwl o bosibl gwneud gwaith ychwanegol i gydgysylltu â chontracteion eraill)**

**Os ydych chi wedi cael cwestiynau gan eraill sy’n tendro, a fydd y cwestiynau hynny'n cael eu cyhoeddi, ac os felly, a fydd eich ymatebion yn cael eu cyhoeddi hefyd?**

- Rydym ni’n agored iawn am y nifer a'r math o gynigion y byddwn ni’n eu hystyried i gyflawni'r gwaith. Mae'r math yma o ymgysylltu â chymunedau a’u cynnwys yn newydd i ni ac rydym ni’n awyddus i sicrhau ein bod yn cyrraedd y cymunedau nad oes gennym unrhyw berthynas â nhw ar hyn o bryd. Nid ydym ni wedi pennu cyllideb ar gyfer y gwaith oherwydd ein bod yn agored i ystyried amryw o gynigion

gwahanol – rhai bach a mawr. Y peth pwysig fydd y dull a'r profiad o gyrraedd y cymunedau ac ymgysylltu â nhw.

- Rydym ni wedi cydnabod yr angen i fod yn hyblyg ynglŷn â'r amserlen oherwydd yr ansicrwydd am goronafeirws. Rydym ni'n rhagweld cynigion sy'n amlinellu'r amserlen sydd ei hangen i gyflawni'r gwaith ond heb ddyddiadau cychwyn a gorffen penodol.

- O bosibl, ond nid ydym ni wedi nodi beth allai'r rhain fod. Byddai'n well gennym weld llawer o'r gwaith yn cael ei wneud wyneb yn wyneb ac mewn lleoliadau grŵp.

- Roedd yn ddarn mewnol o waith cwmpasu a oedd yn edrych ar ein prosiectau a'n rhaglenni ac ymchwilio rywfaint i'r gwaith ymgysylltu cymunedol gan y sefydliadau a ariannwn. Dyma'r cam nesaf yn y broses o glywed gan gymunedau am eu profiadau a'u dyheadau o ran ymgysylltu diwylliannol. Byddwn ni'n trafod gwerth rhannu'r gwaith a wnaethom gyda'r ymgeisydd llwyddiannus.

- Nod y gwaith cynnwys yw llywio datblygiad gwaith ymgysylltu â'r celfyddydau yn y dyfodol, ond byddwn ni am adlewyrchu'r canlyniad yn ôl i'r cymunedau.

- Mae'r math yma o ymgysylltiad a chynhwysiant cymunedol yn newydd i ni ac rydym ni'n awyddus i sicrhau ein bod yn cyrraedd y cymunedau hynny nad oes gennym unrhyw berthynas â nhw ar hyn o bryd. Dyna pam rydym ni'n gwahodd amrywiaeth o gynigion. Bydd y ffordd y caiff y gwaith ei wneud yn y pen draw yn cael ei benderfynu gan y cyflwyniadau a gawn, ond mae'n bosibl y bydd gennym fwy nag un contractai. Mewn achosion o'r fath, byddem ni'n sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu gwaith ac mae'n bosibl y bydd rhywfaint o gydweithio.

- Byddwn yn cyhoeddi'r cwestiynau a'r atebion ar ein gwefan.

Rydym ni'n llunio ymateb i'r cyfle yma ac mae gennym ychydig o gwestiynau:

Yn adran 3 o'r fanyleb – y brîff - rydych chi'n nodi bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi comisiynu darn o waith blaenorol sy'n edrych ar waith cymunedol a gwaith ymgysylltu ledled Cymru – a fydd y gwaith ar gael?

Gwerth am arian – dwi'n nodi na fydd cyllideb yn cael ei rhoi ar gyfer y gwaith - ac nid oes unrhyw amcan ynghylch sawl cysylltiad sydd ei angen. Beth yw eich methodoleg i asesu gwerth am arian i sicrhau ein bod yn cyflwyno ein cyllideb mewn ffordd sy'n caniatáu dehongliadau gwahanol o ran graddfa'r prosiect – a beth yw'r pwysoliad sgorio ar gost a phethau eraill sy'n amrywio?

1. Roedd yn ddarn mewnol o waith cwmpasu a oedd yn edrych ar ein prosiectau a'n rhaglenni ac ymchwilio rywfaint i'r gwaith ymgysylltu cymunedol gan y sefydliadau a ariannwn. Dyma'r cam nesaf yn y broses o glywed gan gymunedau am eu profiadau

a'u dyheadau o ran ymgysylltu diwylliannol. Byddwn ni'n trafod gwerth rhannu'r gwaith a wnaethom gyda'r ymgeisydd llwyddiannus.

2. Rydym ni'n agored iawn am y nifer a'r math o gynigion y byddwn ni'n eu hystyried i gyflawni'r gwaith. Mae'r math yma o ymgysylltu â chymunedau a'u cynnwys yn newydd i ni ac rydym ni'n awyddus i sicrhau ein bod yn cyrraedd y cymunedau nad oes gennym unrhyw berthynas â nhw ar hyn o bryd. Nid ydym ni wedi pennu cyllideb ar gyfer y gwaith oherwydd ein bod yn agored i ystyried amryw o gynigion gwahanol – rhai mawr a bach. Y peth pwysig fydd y dull a'r profiad o gyrraedd y cymunedau ac ymgysylltu â nhw.

### A yw'r gwahoddiad i dendro yn agored o hyd ac yn mynd yn ei flaen neu a aeth yr arian at y gronfa goronafeirws?

Mae o hyd ar agor a'r dyddiad cau yw **5pm 24 Ebrill 2020**.

Ond rydym ni wrth gwrs yn deall cymhlethdodau cynllunio i'r dyfodol ar hyn o bryd, felly rydym ni'n awyddus i fod yn hyblyg o ran amserlen ar gyfer cyflenwi ac ati.

### Mae gennym ddiddordeb mewn cyflwyno tendr ar gyfer y prosiect gan ei fod yn gweddu'n helaeth i'n hymarfer a'n hathroniaeth artistig. Ond rydym ni hefyd yn ymwybodol nad yw sefydliadau a grwpiau cymunedol yn gallu cymryd rhan mewn sgyrsiau creadigol ar hyn o bryd. (Mae nifer o'n prosiectau presennol wedi'u gohirio ar hyn o bryd). O ran y cynnig, sut dylwn ni adlewyrchu yn yr amserlen y ffaith nad oes yr un ohonom yn gwybod pryd y bydd y cyfyngiadau'n cael eu codi?

Rydym wedi cydnabod yr angen i fod yn hyblyg ynglŷn â'r amserlen oherwydd yr ansicrwydd am goronafeirws. Rydym ni'n rhagweld cynigion sy'n amlinellu'r amserlen sydd ei hangen i gyflawni'r gwaith ond heb ddyddiadau cychwyn a gorffen penodol.

### A yw Cyngor y Celfyddydau yn disgwyl i'r gwaith a'r adroddiad dilynol gael eu llenwi yn y Gymraeg a'r Saesneg?

Yn ddelfrydol, ydy. Byddem ni'n disgwyl i'r sgyrsiau gael eu cynnal gyda grwpiau/cymunedau Cymraeg a Saesneg gydag adroddiad sy'n adlewyrchu hynny.

### Mae disgwyl i'r gwaith ddigwydd cyn gynted â phosibl. Yn y sefyllfa bresennol, a fyddai'n well gan y Cyngor weld methodoleg sy'n sensitif i goronafeirws a'r cyfyngiadau o ran cadw pellter?

Rydym ni wedi cydnabod yr angen i fod yn hyblyg ynglŷn â'r amserlen oherwydd yr ansicrwydd am goronafeirws. Rydym ni'n disgwyl cynigion sy'n amlinellu amserlen i gyflawni'r gwaith ond heb ddyddiadau penodol o ran dechrau a gorffen.

### Mae'r gwahoddiad i dendro'n cyfeirio at adroddiad a gomisiynwyd gan y Cyngor ddiwedd y llynedd. A fydd yr adroddiad ar gael i'w ddefnyddio gan y tendrwr llwyddiannus?

Roedd yr adroddiad yna'n ddarn mewnol o waith cwmpasu am ein prosiectau a'n rhaglenni. Roedd hefyd wedi ymchwilio i rywfaint o'r gwaith ymgysylltu â'r gymuned a gyflawnir gan ein sefydliadau. Dyma'r cam nesaf yn y broses: clywed gan gymunedau am eu profiadau a'u dyheadau o ran ymgysylltu diwylliannol. Byddwn ni'n trafod gwerth rhannu'r gwaith yna gyda'r tendrwr llwyddiannus.

### Oherwydd cyfyngiadau coronafeirws, a ydych yn bwriadu cadw at y dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer cyflwyno cynnig ac ar gyfer amserlen y prosiect?

Rydym ni wedi cydnabod yr angen i fod yn hyblyg ynghylch yr amserlen oherwydd yr ansicrwydd ynghylch coronafeirws. Rydym ni'n rhagweld cynigion sy'n amlinellu'r amserlen sydd ei hangen i gyflawni'r gwaith ond heb ddyddiadau cychwyn a gorffen penodol.

### A allwch roi syniad inni o faint y dylem ofyn amdano o ran y gyllideb?

Rydym ni'n agored iawn ynghylch nifer y cynigion a'r math o gynigion y byddwn ni'n eu hystyried i wneud y gwaith. Mae'r math yma o ymgysylltu a chynnwys cymunedol yn newydd i ni ac rydym ni'n awyddus i gyrraedd y cymunedau yna nad oes gennym unrhyw berthynas â nhw ar hyn o bryd. Nid ydym ni wedi pennu cyllideb ar gyfer y gwaith oherwydd ein bod yn agored i ystyried amryw o gynigion gwahanol – rhai bach a mawr. Y peth pwysig fydd y dull a'r profiad o gyrraedd y cymunedau ac ymgysylltu â nhw.

### A allwch roi unrhyw ddolenni i'r adroddiadau rydych chi'n cyfeirio atynt yn y tendr?

Roedd yr adroddiad yn ddarn mewnol o waith cwmpasu a oedd yn edrych ar y prosiectau a'r rhaglenni rydym ni wedi'u darparu ac i ymchwilio rywfaint i'r gwaith ymgysylltu â'r gymuned a gyflawnir gan ein sefydliadau. Dyma'r cam nesaf yn y broses o glywed gan gymunedau am eu profiadau a'u dyheadau o ran ymgysylltu diwylliannol. Byddwn ni'n trafod gyda'r ymgeisydd llwyddiannus werth rhannu'r gwaith a wnaethom.

**Dalier sylw**: mater i chi benderfynu arno fel rhan o'ch cais yw sut y byddwch chi'n ymgymryd â'r gwaith a byddwn ni'n ystyried hynny wrth asesu. Ni fyddai'n briodol inni wneud sylw am hynny cyn ichi gyflwyno eich cynnig.